OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 392 (Cy.41)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - - 26 Chwefror 2009
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 27 Chwefror 2009
Yn dod i rym - - 20 Mawrth 2009

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion gwneud Rheoliadau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn yr adran honno ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth a nodir yn yr Atodlen gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth honno fel y'i diwygir o dro i dro.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2009, maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 20 Mawrth 2009.

Diwygio Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007

2. Mae Atodlen1 i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007(**3**) wedi'i disodli gan yr Atodlen a geir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S. 2005/2766. Mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 iddi.
(**2**) 1972 p.68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).
(**3**) O.S. 2007/376 (Cy.36), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2007/1710 (Cy.148).

Elin Jones
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

26 Chwefror 2009

YR ATODLEN Rheoliad 2

Yr Atodlen Amnewid

"ATODLEN 1 Rheoliadau 2(1), 4(7), 21, 36 a 37

Amodau Mewnforio

RHAN 1

Darpariaethau sy'n Gyffredin i Nifer o Gategorïau o Gynnyrch

Terfynau gweddillion uchaf a halogion

1. Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2377/90 sy'n gosod gweithdrefn Gymunedol ar gyfer sefydlu terfynau gweddillion uchaf cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol mewn bwydydd sy'n dod o anifeiliaid(**4**).

2. Cyfarwyddeb y Cyngor 96/23/EC ar fesurau i fonitro sylweddau penodol a'u gweddillion mewn anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid(**5**).

3. Penderfyniad y Comisiwn 2004/432/EC ar gymeradwyo cynlluniau monitro gweddillion a ddanfonwyd gan drydydd gwledydd yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 96/23/EC(**6**).

4. Penderfyniad y Comisiwn 2005/34/EC sy'n gosod safonau wedi'u harmoneiddio ar gyfer profi am weddillion penodol mewn cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforir o drydydd gwledydd(**7**).

5. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1881/2006 sy'n gosod y lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn bwydydd(**8**).

6. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 733/2008 ynglyn â'r amodau sy'n llywodraethu mewnforion o gynhyrchion amaethyddol sy'n tarddu o drydydd gwledydd yn sgil y ddamwain yn atomfa Chernobyl(**9**).

7. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1609/2000 sy'n sefydlu rhestr o gynhyrchion a eithrir o gymhwyso Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 737/90 ar yr amodau sy'n llywodraethu mewnforion o gynhyrchion amaethyddol sy'n tarddu o drydydd gwledydd yn sgil y ddamwain yn atomfa Chernobyl(**10**).

Enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy

8. Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a difodi enseffalopathïau sbyngffurff trosglwyddadwy penodol(**11**).

(**4**) OJ Rhif L224, 18.8.90, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 542/2008 (OJ Rhif L157, 17.6.2008, t.43).
(**5**) OJ Rhif L125, 23.5.96, t.10, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2006/104/EC (OJ Rhif L363, 20.12.2006, t.352).
(**6**) OJ Rhif L154, 30.4.2004, t.42, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2008/772/EC (OJ Rhif L263, 2.10.2008, t.20).
(**7**) OJ Rhif L16, 20.1.2005, t.61.
(**8**) OJ Rhif L364, 20.12.2006, t.5, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 629/2008 (OJ Rhif L173, 3.7.2008, t.6).
(**9**) OJ Rhif L201, 30.7.2008, t.1.
(**10**) OJ Rhif L185, 25.7.2000, t.27.
(**11**) OJ Rhif L147, 31.5.2001, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 956/2008 (OJ Rhif L260, 30.9.2008, t.8).

9. Penderfyniad y Comisiwn 2007/453/EC sy'n sefydlu statws BSE Aelod-wladwriaethau neu drydydd gwledydd neu ranbarthau ohonynt yn unol â'u risg BSE(**12**).

Tystysgrifau iechyd ar gyfer mewnforion o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid

10. Penderfyniad y Comisiwn 2007/240/EC sy'n gosod tystysgrifau milfeddygol newydd ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw, semen, embryonau, ofa a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'r Gymuned yn unol â Phenderfyniad 79/542/EEC, 92/260/EEC, 93/195/EEC, 93/196/EEC, 93/197/EEC, 95/328/EC, 96/333/EC, 96/539/EC, 96/540/EC, 2000/572/EC, 2000/585/EC, 2000/666/EC, 2002/613/EC, 2003/56/EC, 2003/779/EC, 2003/804/EC, 2003/858/EC, 2003/863/EC, 2003/881/EC, 2004/407/EC, 2004/438/EC, 2004/595/EC, 2004/639/EC, 2006/168/EC(**13**).

Ardystiadau iechyd ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid o Seland Newydd

11. Penderfyniad y Comisiwn 2003/56/EC ar dystysgrifau iechyd ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid o Seland Newydd (**14**).

Rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau iechyd y cyhoedd ar fewnforion cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'w bwyta gan bobl

12. Cyfarwyddeb y Cyngor 2002/99/EC sy'n gosod y rheolau iechyd anifeiliaid sy'n llywodraethu cynhyrchu, prosesu, dosbarthu a chyflwyno cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ar gyfer eu bwyta gan bobl(**15**).

13. Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**16**).

14. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 183/2005 sy'n gosod gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid(**17**).

15. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 396/2005 ar lefelau uchaf plaleiddiaid mewn bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n dod o blanhigion ac o anifeiliaid neu ar y bwyd neu'r bwyd anifeiliaid hwnnw (**18**).

16. Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(**19**).

17. Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac sydd wedi'u bwriadu ar gyfer eu bwyta gan bobl(**20**).

(**12**) OJ Rhif L172, 30.6.2007, t.84.
(**13**) OJ Rhif L104, 21.4.2007, t.37.
(**14**) OJ Rhif L22, 25.1.2003, t.38, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2006/855/EC (OJ Rhif L338, 5.12.2006, t.45).
(**15**) OJ Rhif L18, 23.1.2003, t.11.
(**16**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 202/2008 (OJ Rhif L60, 5.3.2008, t.17).
(**17**) OJ Rhif L35, 8.2.2005, t.1.
(**18**) OJ Rhif L70, 16.3.2005, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 299/2008 (OJ Rhif L97, 9.4.2008, t.67).
(**19**) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.55, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1020/2008 (OJ Rhif L277, 18.10.2008, t.8).
(**20**) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.206, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1021/2008 (OJ Rhif L277, 18.10.2008, t.15).

18. Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a ddefnyddir i sicrhau bod cydymffurfedd â'r gyfraith ynglyn â bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid yn cael ei wirio(**21**).

19. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd(**22**).

20. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 sy'n gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n rhanddirymu Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**23**).

21. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2075/2005 sy'n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer Trichinella mewn cig(**24**).

22. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2076/2005 sy'n gosod trefniadau trosiannol ar gyfer gweithredu Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004, (EC) Rhif 854/2004 ac (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**25**).

RHAN 2

Cig Ffres o Wartheg, Defaid, Geifr a Moch

Trydydd gwledydd a'r gofynion o ran ardystiadau iechyd ar gyfer mewnforio cig ffres ohonynt

1. Penderfyniad y Cyngor 79/542/EEC sy'n tynnu rhestr o drydydd gwledydd neu rannau o drydydd gwledydd, ac sy'n gosod yr amodau o ran iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd ac o ran ardystiadau milfeddygol, ar gyfer mewnforio i'r Gymuned anifeiliaid byw penodol a'u cig ffres(**26**).

Yr Ariannin

2. Penderfyniad y Comisiwn 81/91/EEC ar y rhestr o sefydliadau yng Ngweriniaeth yr Ariannin sydd wedi'u cymeradwyo at ddibenion mewnforio cig eidion ffres a chig llo ffres, cig defaid ffres a chig ffres o anifeiliaid carngaled domestig i mewn i'r Gymuned(**27**).

Awstralia

3. Penderfyniad y Comisiwn 83/384/EEC ar y rhestr o sefydliadau yn Awstralia a gymeradwywyd at ddibenion mewnforio cig ffres i'r Gymuned(**28**).

(**21**) OJ Rhif L165, 30.4.2004, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1029/2008 (OJ Rhif L278, 21.10.2008, t.6).
(**22**) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1441/2007 (OJ Rhif L322, 7.12.2007, t.12).
(**23**) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.27, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1022/2008 (OJ Rhif L277, 18.10.2008, t.18).
(**24**) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.60, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1245/2007 (OJ Rhif L281, 25.10.2007, t.19).
(**25**) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.83, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1023/2008 (OJ Rhif L277, 18.10.2008, t.21).
(**26**) OJ Rhif L146, 14.6.79, t.15, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2008/752/EC (OJ Rhif L261, 30.9.2008, t.1).
(**27**) OJ Rhif L58, 5.3.81, t.39, fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 86/392/EEC (OJ Rhif L228, 14.8.86, t.44).
(**28**) OJ Rhif L222, 13.8.83, t.36, fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 86/389/EEC (OJ Rhif L228, 14.8.86, t.34).